eiriolaeth
advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

*Tachwedd 2016* *Rhif 2*

## *Y penawdau diweddaraf*

### *'Digwyddiad Mawr' Rhwydwaith Eiriolaeth*

Cynhaliwyd pedwerydd 'Digwyddiad Mawr' Blynyddol y Rhwydwaith Eiriolaeth ar 21ain Medi 2016 yng Ngwesty Maesmawr Hall. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gyda 50 o gynrychiolwyr yn mynychu. Mynychodd 7 siaradwr y diwrnod a rhoi cyflwyniadau llawn gwybodaeth.

Os hoffech weld cyflwyniadau'r siaradwyr o'r Digwyddiad Mawr, ewch ar:

Rhwydwaith Eiriolaeth | Digwyddiad Mawr | Cyflwyniadau siaradwyr

### *Gwobrau Eiriolaeth Cenedlaethol*

Roeddem wrth ein bodd fod y Rhwydwaith Eiriolaeth wedi'i enwebu yn y categori 'Cynorthwywr Gorau' ar gyfer Gwobrau Eiriolaeth Cenedlaethol 2016. Lansiwyd y Gwobrau i arddangos y gorau yn y sector eiriolaeth. Roedd dros 70 enwebiad. Roeddem wrth ein boddau o gael ymddangos ar y rhestr fer yn y 3 uchaf.

Cynhaliwyd cinio'r gwobrau ar 12fed Hydref yn Ngwesty'r Hilton yng Nghanolfan Arddangosfa Genedlaethol (NEC) Birmingham lle cyhoeddwyd yr enillydd. Yn anffodus, ni enillom y wobr, ond rydym yn parhau i fod yn freintiedig iawn o gael ein henwebu a'n rhoi ar y rhestr fer.

### *Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 5*

Newyddion cyffrous! Cyhoeddir canlyniadau ein pumed arolwg o'r gyfres Mae Eiriolaeth yn Cyfrif yn y mis nesaf. Byddwch yn barod am fwy o wybodaeth.

### *Cwestiynau Cyffredin Rhaglen Eiriolaeth Edau Aur*

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi atebion i gwestiynau gan y rhanddeiliaid y mae'r rhaglen yn gweithio â nhw. Nid yw'r atebion o raid yn gynhwysfawr. Os oes gennych ymholiadau neu gwestiynau pellach peidiwch â phetruso cysylltu.

I weld y ddogfen Cwestiynau Cyffredin, ewch ar ein gwefan:

Age Cymru | Dogfen Cwestiynau Cyffredin

## *Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol a’r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth*

*Mae gan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (IAA) ac Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (IPA) rôl allweddol yn yr agwedd newydd i ofalu a chynorthwyo. Efallai y bydd angen i staff sy’n gweithio mewn gwasanaethau IAA gyfeirio rhai pobl at wasanaeth IPA. Pa broses ddylid ei dilyn i benderfynu pryd dylid gwneud atgyfeiriad?*

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) “y Ddeddf” yn gofyn i awdurdodau lleol ystyried p’un ai fydd unigolyn angen Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol (IPA) ar bob cam o’u taith drwy’r system gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys ar eu pwynt cyswllt cyntaf. Datgana Rhan 10 o God Ymarfer ar Eiriolaeth “y Cod”:

> 47. Rhaid i awdurdodau lleol drefnu ar gyfer darparu eiriolwr proffesiynol annibynnol lle gall unigolyn ond goresgyn y rhwystr(au) i gyfranogi’n llawn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, arolygu a diogelu gyda chymorth gan unigolyn priodol. Ond nid oes unigolyn priodol ar gael.[1]

### Cyfranogi’n llawn

Eglura’r Cod beth a olyga cyfranogi’n llawn yn y cynllunio asesiad, gofal a chymorth a’r prosesau arolygu a diogelu:

> 48. Mae cyfranogi’n llawn yn galluogi’r unigolyn fynegi barn, dymuniadau a theimladau neu gael ei gynrychioli neu ei ystyried. Mae’n sicrhau ei fod yn deall ei hawliau a’i hawliadau. Mae’n sicrhau ei fod yn deall y broses gwneud penderfyniadau. Mae’n sicrhau beth sy’n bwysig iddo Mae’n sicrhau’r canlyniadau lles personol y dymuna eu cyflawni. Mae’n dangos y rhwystrau i gyflawni’r canlyniadau hynny, a’r opsiynau a’r dewisiadau sydd ar gael iddo. [2]

### Goresgyn rhwystrau

Ym Mhennod 12 eglura’r Cod hefyd “Beth sy’n gyfystyr â’r rhwystrau a all effeithio ar allu unigolyn i ymgysylltu a chyfranogi’n llawn”:

> 55. Mewn partneriaeth, rhaid i awdurdodau lleol ystyried a yw’r unigolyn yn debygol o brofi rhwystrau i gyfranogi’n llawn wrth benderfynu ar ei ganlyniadau lles. Dylent hefyd gyrraedd casgliad ar ei anghenion am gymorth eiriolaeth. Bydd rhwystrau allweddol yn cynnwys materion a sefyllfaoedd a fydd yn amharu ar allu unigolion i:

- ddeall gwybodaeth berthnasol
- cadw gwybodaeth
- defnyddio neu bwyso gwybodaeth
- cyflwyno ei farn, dymuniadau a theimladau.[3]

### Unigolyn priodol

Mae rôl yr “unigolyn priodol” yn allweddol i ddeall pa fath o eiriolaeth sy’n ofynnol mewn achosion unigol. Unigolyn priodol yw rhywun sy’n gallu hwyluso cyfranogiad unigolyn yn y prosesau asesu, cynllunio gofal, arolygu a diogelu. Ond ni all fod yn rhywun:

- nad yw’n dymuno rhoi cymorth i’r unigolyn
- sy'n annhebygol o fod fedru ei gynorthwyo, neu ar gael i'w gynorthwyo'n ddigonol, neu
- sy'n gysylltiedig ag ymholiad diogelu.[4]

Yn parhau...


Gall yr unigolyn priodol fod yn aelod o'r teulu, gofalwr, neu'n unrhyw un sy'n rhoi ffurf o eiriolaeth annibynnol heb fod yn broffesiynol. Mae hyn cyhyd â'i fod yn cwrdd â'r meini prawf uchod. Yn hanfodol, rhaid iddo fod â dealltwriaeth ddigonol o brosesau awdurdod lleol i allu cynorthwyo cyfranogiad yr unigolyn wrth benderfynu ar ei ganlyniadau lles a chael y gofal a'r cymorth mae eu hangen.

Os nad oes unigolyn priodol ar gael, rhaid i'r unigolyn gael ei atgyfeirio at wasanaeth IPA statudol.

## Gwasanaeth IAA

I lawer o bobl ag anghenion gofal a chymorth, gwasanaethau IAA fydd eu pwynt cyswllt cyntaf â gwasanaeth cymdeithasol.[5]

Cydnabu Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol):





> 327. Bydd rhai pobl angen cymorth i allu gwneud cysylltiad cychwynnol. Dylai awdurdodau lleol ystyried sut orau i gynorthwyo unigolion i sicrhau bod y gwasanaeth IAA yn hygyrch. Dylent sicrhau hefyd y rhoir cymorth priodol gan gynnwys eiriolaeth".[6]

Felly mae gan staff rheng flaen sy'n gweithio mewn gwasanaethau IAA rôl allweddol wrth sicrhau bod gan holl unigolion fynediad at eiriolaeth annibynnol os ydynt ei hangen. O ystyried hyn, mae gofyn i awdurdodau lleol "sicrhau bod gan staff o fewn y gwasanaeth sgiliau addas i adnabod unigolion sydd angen eiriolwr. Mae angen iddynt sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu i sicrhau y cynorthwyir yr unigolion hynny."[7]

Wrth ystyried anghenion posibl unigolion am eiriolaeth, disgwylir i staff IAA ddilyn y llwybr penderfyniadau a ddangosir isod.[8]

Yn parhau...




Dylid dilyn y broses gwneud penderfyniadau hon drwy gydol y prosesau asesu, cynllunio gofal a chymorth, diogelu ac arolygu.

Mae Modiwl Cyflwyniad a Hyfforddiant Swyddogaethau Cyffredinol yn cynnwys astudiaeth achos fanwl[9] a chyfres o gwestiynau[10] i gynorthwyo ymarferwyr mewn barnu a allai rhywun fod yn profi rhwystrau a c a oes angen eiriolaeth.


### Cyfeirnodau

1. Rhan 10 Cod Ymarfer (Eiriolaeth), para 47:
http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part10en.pdf
2. Rhan 10 Cod Ymarfer, para 48.
3. Rhan 10 Cod Ymarfer, para 55.
4. Rhan 10 Cod Ymarfer, para 61 ac adran 13.
5. Sut i gael gofal a chymorth:
http://www.ccwales.org.uk/edrms/157190/
6. Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol), para 327:
http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part2en.pdf
7. Rhan 2 Cod Ymarfer, para 329.
8. Modiwl Hyfforddiant Lefel B Cyflwyniad a Swyddogaethau Cyffredinol Sleid PowerPoint 42,
http://www.ccwales.org.uk/edrms/157075/
9. Astudiaeth achos Modiwl Hyfforddiant Lefel B Cyflwyniad a Swyddogaethau Cyffredinol tt. 79-80:
http://www.ccwales.org.uk/edrms/157294/
10. Ymarfer Modiwl Hyfforddiant Lefel B Cyflwyniad a Swyddogaethau Cyffredinol 3.43.2 t. 78-79.

**Paul Swann, Age Cymru**

## *Dadansoddi lefel angen am Eiriolaeth o fewn poblogaethau lleol*

Mewn byd delfrydol, byddai'r lefel o angen am wasanaethau eiriolaeth o fewn cymunedau lleol wedi'i dadansoddi flwyddyn cyn gweithredu'r dyletswyddau statudol newydd dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru. Roedd gan gomisiynwyr felly'r sail tystiolaeth ddiweddaraf ar gyfer eu rowndiau comisiynu a chontractio oedd ar y gweill. Fodd bynnag, nid yw'r byd fyth yn ddelfrydol. Ychwanegwyd y ddyletswydd o drefnu gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar adeg cymharol hwyr yn hynt y ddeddfwriaeth. Felly mae elfen o ddal i fyny i'w wneud cyn integreiddir yr angen am y gwasanaethau hynny i gyfnod cyntaf y cylch comisiynu. Mae'r Tîm Eiriolaeth Edau Euraidd yn gweithio i gynyddu hyn.




Diben y cyfnod dadansoddi yw creu sail dystiolaeth eglur a phenodol ynghylch y gwahanol lefelau o angen am wasanaethau (a'r asedau i gwrdd â'r angen hwnnw) sy'n bodoli o fewn poblogaeth. Mae fel arfer yn cynnwys ymgysylltu â rhanddeiliaid, casglu data caled a meddal, dadansoddi'r dystiolaeth ac ysgrifennu adroddiad.

Dylai'r sail dystiolaeth hon hysbysu penderfyniadau cynllunio a gweithredu, tanategu penderfyniadau adnoddau a chyllideb, sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy a chynorthwyo i ddatblygu agwedd ataliol. Dylai comisiynu'r holl wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau eiriolaeth, yna gael eu targedu ar gyfer y gwir angen. Ni ddylid ond dilyn patrymau contractio hanesyddol. Dylai darparwyr ddisgwyl comisiynwyr ddefnyddio'r broses gontractio i wneud newidiadau yn y dyfodol os dengys y dadansoddiad nad y patrwm presennol o gontractau gwasanaeth yw'r ffordd orau i gwrdd â'r lefelau cyffredinol o angen yn y boblogaeth.

Mae tri ymarfer dadansoddi sylweddol yn digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd:

Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a sefydlwyd yn ddiweddar ym mhob awdurdod lleol dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, yn cynnal Asesiadau Lles eang eu cwmpas i sefydlu sefyllfa lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd. Bydd yr asesiadau hyn yn hysbysu Cynlluniau Lles Lleol. Cynhyrchir adroddiadau cynnydd yn flynyddol;
Mae saith tîm rhanbarthol sy'n dod ag Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd at ei gilydd yn cynnal Asesiadau Poblogaeth sy'n ffocysu ar anghenion gofal a chymorth. Asesant hefyd anghenion cymorth gofalwyr ledled Cymru, dan Reoliadau Gofal a Chymorth (Asesiadau Poblogaeth) (Cymru), a ddaeth i rym fis Ebrill 2016. Cynhyrchir Asesiadau Poblogaeth unwaith bob pedair blynedd;
Mae Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i fframwaith mesur perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, yn arolygu sampl o ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol ar hap. Mae'n canfod eu barn am eu gofal a chymorth. Bydd y data ar gael fis Mawrth, ac ailadroddir ar yr arolwg yn flynyddol. Defnyddir y data i hysbysu'r rownd nesaf o Asesiadau Poblogaeth, mewn pedair blynedd.

Nid oes yr un o'r ymarferion dadansoddi hyn yn cynnwys data yn benodol ar yr angen am eiriolaeth. Mae tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn ymchwilio p'un ai gallent wneud hynny yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent i gyd yn casglu data am y grwpiau poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod angen gwasanaethau eiriolaeth. Felly dylai barhau i gynorthwyo comisiynwyr ddod at safbwynt cychwynnol am lefelau tebygol angen presennol a gwneud amcanestyniadau am angen yn y dyfodol.


Yn parhau...

Mae data tebyg wedi'i ddefnyddio o'r blaen i benderfynu lefelau tebygol am eiriolaeth yn y DU a thramor, e.e.:

- comisiynodd Eiriolaeth Swydd Rhydychen asesiad am angen gwasanaethau eiriolaeth statudol yn y dyfodol yn y sir;

- cynhyrchodd Adran Heneiddio a Gwasanaethau Oedolion Asiantaeth Gwasanaethau Bodau Dynol adroddiad am yr angen am eiriolaeth ar lefel unigolyn a system yn y ddinas.

**Asesiadau poblogaeth anghenion gofal a chymorth, ac anghenion cymorth gofalwyr**




Mae'r Asesiadau Poblogaeth pedair blynedd sydd ar gynnydd ar hyn o bryd yn debygol o fod y mwyaf perthnasol i eiriolaeth. Mae data nawr wedi'i gasglu. Defnyddir Pecyn Cymorth Asesiad Poblogaeth (gweler Mater 1 o'r Cylchlythyr), ac ysgrifennir yr adroddiadau. Maent yn debygol iawn o greu rhestr o faterion y bydd awdurdodau lleol angen eu harchwilio yn fwy manwl. Mae adroddiadau drafft i fod i gael eu cyflwyno i Awdurdodau Lleol i gael eu cymeradwyo rhwng canol mis Tachwedd a diwedd y flwyddyn. Bydd adroddiadau olaf ar gael yn gyhoeddus ar wefannau Awdurdodau Lleol ar 1 Ebrill 2017. Gan fod y rhanbarthau wedi cymryd agweddau gwahanol iawn, bydd yn ddiddorol gweld pa mor amrywiol fydd eu hadroddiadau.

Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru newydd orffen ymgynghori ar y rheoliadau a chanllaw statudol ar gyfer datblygu Cynlluniau Ardal newydd. Ysgrifennir y cynlluniau hyn y flwyddyn nesaf. Byddant yn gosod yr ystod a lefel o wasanaethau mae Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd lleol yn cynnig eu rhoi neu eu trefnu. Mae hyn mewn ymateb i adroddiad yr asesiad poblogaeth. Bydd cyfleoedd i randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, i gyfranogi – cadwch lygad allan.

Er rhedir Asesiad Poblogaeth ar gylch pedair blynedd, mae'n annelwig ar y funud gweld pa mor aml yn ymarferol gellir ailymweld neu adnewyddu elfennau unigol o'r dadansoddiad.

Dywed canllaw y dylai'r dadansoddiad gael ei arolygu bob dwy flynedd. Awgryma Pecyn Cymorth Asesiad Poblogaeth ei adnewyddu'n amlach. Wedi gweithio'n galed i adeiladu rhwydweithiau o

Yn parhau...

randdeiliaid y tro cyntaf, mae tîm prosiect yr Asesiad Poblogaeth yn awyddus i feithrin ac ymestyn cysylltiadau a sicrhau deialog parhaus am anghenion ar lefel poblogaeth. Bydd tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn awyddus i sicrhau y cynhwysir rhanddeiliaid eiriolaeth wrth fynd ymlaen.

Mae dogfen Sense Cymru sef "Asesiadau Anghenion Poblogaeth – Colli Synhwyrau Beth mae bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol angen ei wybod" yn rhoi cynllun da ar sut all sefydliadau gwirfoddol, mentrau cymdeithasol a'u buddiolwyr ymgysylltu a dylanwadu ar asesiad anghenion. Cynorthwya hefyd i siapio sut y comisiynir gwasanaethau. Bydd tîm y Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn datblygu adnodd tebyg i ddylanwadu ar gomisiynu gwasanaethau eiriolaeth yn y dyfodol. Pwynt pwysig yw, os bydd y rhai hynny sydd angen eiriolaeth yn cael llais yn y broses, byddant angen cymorth eiriolaeth i wneud hynny. Dylid darparu hyn ar y cyd â ffurfiau eraill o gymorth hygyrchedd.

Mae llawer o reolwyr prosiectau rhanbarthol Asesiadau Poblogaeth yn cyhoeddi diweddariadau rheolaidd fel y rhai isod. Os hoffech wybod am gynnydd ar Asesiad Poblogaeth yn eich ardal, cysylltwch â'ch arweinydd rhanbarthol:

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru: Sarah Bartlett | Sarah.Bartlett@denbighshire.gov.uk |
| Gorllewin Cymru: Mary Palmer | mary.palmer@btconnect.com |
| Powys: Diane Reynolds | diane.reynolds@powys.gov.uk |
| Gwent: Phil Diamond / Caryn Cox | phil.diamond@torfaen.gov.uk / Caryn.Cox2@wales.nhs.uk |
| Caerdydd a'r Fro: Dr Tom Porter | tom.porter@wales.nhs.uk |
| Cwm Taf: Nicola Davies | Nicola.davies12@wales.nhs.uk |
| Bae Gorllewinol: Jessica Fitzpatrick | Jessica.Fitzpatrick@swansea.gov.uk |

**Valerie Billingham, Age Cymru**

## *Gofalu i Gydweithredu*

Mae Gofalu i Gydweithredu yn wasanaeth newydd a gyflwynir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru. Ariennir gan Lywodraeth Cymru dan ei Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cyhoeddus Cynaliadwy. Ei nod yw cynorthwyo gweithredu Deddf Gwasanaethau Cyhoeddus a Lles (Cymru). Yn benodol, Rhan 2, Adran 16: hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector wrth gyflwyno gofal a chymorth.

Mae Gofalu i Gydweithredu yn rhoi cymorth ymarferol am ddim i grwpiau a sefydliadau ddatblygu gwasanaethau newydd a chynlluniau cyflwyno newydd yn unol â'r Ddeddf. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhoi cymorth datblygu am ddim i ddarparwyr presennol ddatblygu ffyrdd newydd o weithio, boed i gyflawni canlyniadau lles gwell, neu fanteisio ar gyfleoedd masnachol newydd.
Mae enghreifftiau o'n gwaith cleientiaid yn cynnwys:

- Cynorthwyo unigolion a grwpiau i sefydlu sefydliadau gofal a chymorth newydd
- Rhoi gwasanaeth ymgorffori pwrpasol
- Cynorthwyo â chynllunio busnes ac adnabod cyllid
- Datblygu cynlluniau rheoli i sicrhau llais a rheolaeth defnyddwyr gwirioneddol
- Cynorthwyo i ddod â phartneriaeth a chonsortia at ei gilydd drwy gymorth ymarferol

Crea'r Ddeddf ystod o gyfleoedd ar gyfer grwpiau newydd a phresennol i gyfranogi wrth gyflwyno gwasanaethau gofal a chymorth personol. Mae'r rhain yn cynnwys:

Yn parhau...

**Comisiynu:**

Mae'r Ddeddf yn creu cyfleoedd newydd i grwpiau a sefydliadau gyfranogi mewn cyflwyno gwasanaethau newydd, a ffurfio partneriaethau newydd a chonsortia a all roi agweddau creadigol a dynamig, boed hyn yn ofyniad a roir ar Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth o ansawdd da ar gael drwy Gymru gyfan neu drwy gomisiynwyr yn gweithio'n agos â dinasyddion i ddatblygu gwasanaethau lleol.

**Canolbwyntio ar bobl, lles ac ymyriad cynnar:**

Bydd sicrhau bod gan y bobl sydd angen cymorth wir lais a rheolaeth o fewn gwasanaethau, yn golygu newidiadau gwirioneddol i'r ffordd y darperir cymorth a gwneir penderfyniadau. Gall hyn gynnwys grwpiau aml-randdeiliaid yn ffurfio eu gwasanaethau newydd eu hunain gan wneud penderfyniadau ar y cyd. Neu, gall sefydliadau presennol ddatblygu eu polisïau rheoli a rheolaeth i ganiatáu mwy o lais a rheolaeth i bobl sy'n derbyn cymorth. Drwy bwysleisio pwysigrwydd ataliaeth ac ymyriad cynnar, anoga'r Ddeddf hefyd ddatblygiad agweddau creadigol a all ymgysylltu â dinasyddion a'u cynorthwyo i gyflawni eu lles.

**Taliadau Uniongyrchol:**

Mae'r Ddeddf yn gofyn i Awdurdodau Lleol wneud gwell defnydd o Daliadau Uniongyrchol. Mae'n gofyn iddynt fod yn fwy creadigol ac arloesol o ran sut defnyddir y taliadau hyn. Caniatâ Taliadau Uniongyrchol unigolyn ag anghenion asesedig gymryd rheolaeth o'i gyllideb ei hun am ofal a chymorth personol. Felly sicrha bod y cymorth a gaiff wedi'i deilwra i'w anghenion. Mae cynyddu defnydd ac argaeledd Taliadau Uniongyrchol yn creu cyfleoedd i bobl archwilio ffyrdd newydd o reoli'r cymorth a dderbyniant. Mae hefyd yn rhoi cyfleoedd i grwpiau a sefydliadau gynnig gwasanaethau cymorth pwrpasol i ddinasyddion gyda chyllideb Taliad Uniongyrchol.

Mae'r tîm Gofalu i Gydweithredu yn cynnwys staff gyda sawl blwyddyn o brofiad yn gweithio o fewn gwasanaethau cymorth, ynghyd â rhoi cymorth busnes ymarferol.

**Lorna Allcock, Ymgynghorydd De a Chanolbarth Cymru:**
Mae gan Lorna Radd mewn Ffisiotherapi a thros 10 mlynedd o brofiad o fewn maes gofal a chymorth. Mae wedi sefydlu ac yn rhedeg Cwmni Diddordebau Cymunedol gan gyflwyno cymorth lles lle mae wedi bod yn gyfarwyddwr am dros 5 mlynedd. Mae hefyd wedi dal swyddi amrywiol o fewn yr elusen a sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys mewn cymorth canser, cymorth cyflogaeth, a chydlynu Taliadau Uniongyrchol.

**Gareth Rogers, Ymgynghorydd Gogledd a Chanolbarth Cymru:**
Mae gan Gareth Radd Feistr mewn Gwleidyddiaeth. Mae ganddo dros 9 mlynedd o brofiad o fewn maes gofal a chymorth. Mae wedi dal swyddi amrywiol o fewn yr elusen a'r sector cyhoeddus. Mae rhain yn cynnwys bod yn eiriolwr, ymgynghorydd personol statudol, swyddog datblygu cyfranogiad, ymarferydd uwch, a swyddog gwybodaeth a monitro. Mae ganddo hefyd brofiad yn rhoi cymorth busnes i gynorthwyo BBaCh.

**Donna Coyle, Rheolwr Gwasanaeth:**
Mae gan Donna Radd Feistr mewn Astudiaethau Adfywio. Mae wedi gweithio i Ganolfan Gydweithredol Cymru am dros 11 mlynedd. Mae ganddi gyfoeth o brofiad mewn cynorthwyo'r Ganolfan yn ei pherwyl i ddatblygu economi Cymru drwy weithio fel Swyddog Ymchwil a Datblygu. Roedd yn Ymgynghorydd Datblygu Marchnad yn ogystal. Mae gan Donna gefndir hefyd fel Ymgynghorydd Cyfrifon o fewn y diwydiant Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebiadau.

Yn parhau...

**Gemma Murphy, Gweinyddwr Gwasanaeth:**
Mae Gemma yn Ddylunydd Graffeg cymwys. Mae ganddi dros 5 mlynedd o brofiad ym maes gofal a chymorth. Mae wedi dal ystod o swyddi gyda'r elusen a sector cyhoeddus. Mae wedi cynorthwyo gyda gweinyddu a recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr. Mae Gemma hefyd wedi sefydlu a rhedeg ei busnes ei hun. Mae wedi gwneud hyn ers dros 3 blynedd.

I ymholi ynghylch derbyn cymorth gan Gofalu i Gydweithredu, neu drafod cyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, ffoniwch 0300 111 50 50 neu e-bostiwch info@wales.coop

Mae'r tîm hefyd yn rhedeg 4 gweithdy am ddim yn ystod mis Tachwedd 2016. Am fwy o wybodaeth ac archebu lle, cliciwch ar y linc canlynol:

https://www.eventbrite.co.uk/e/getting-in-on-the-act-how-to-set-up-and-run-co-operative-care-and-support-services-tickets-28420882625



Tîm Gofalu i Gydweithredu: Lorna Allcock, Gemma Murphy, Gareth Rogers, Donna Coyle, Glenn Bowen (Cyfarwyddwr Menter, Canolfan Cydweithredol Cymru)

## *Hyfforddiant APSO i swyddogion awdurdodedig*

Mae'r cyfnod hyfforddi cyntaf ar gyfer swyddogion awdurdodedig ar Orchmynion Diogelu a Chymorth Oedolion (APSO) yn digwydd y mis hwn. Wedi'i ddatblygu gan Ymchwil ar Waith i Oedolion (RiPfA) ac IPC ar ran y Cyngor Gofal, bydd yr hyfforddiant undydd yn mynd â swyddogion awdurdodedig drwy'r broses o gymhwyso am APSO. Mae'n cael ei gyflwyno i ddau swyddog awdurdodedig awdurdod lleol ac un swyddog cyfreithiol o bob sir yng Nghymru.

Mae Gorchmynion Gwarchod a Chymorth Oedolion (APSO) yn orchmynion a gyflwynir gan Adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Gellir eu cael gan swyddogion awdurdodedig i gael mynediad at unigolyn a gredir ei fod mewn perygl. Gallent asesu p'un ai yw'r unigolyn yn gwneud penderfyniadau yn rhydd ac mewn perygl mewn gwirionedd wrth wneud hynny. Cyhoeddir cyfres o ddeunyddiau dysgu dwyieithog am APSOs ar gyfer cynulleidfa ehangach ar yr Hyb ar ddechrau 2017. Ceir hefyd canllaw hyfforddi fel gall hyfforddiant APSO pellach gael ei gyflwyno neu ei gomisiynu.

**Bwletin Cymryd Rhan**

Yn parhau...

## *Hyfforddiant a digwyddiadau defnyddiol*

### Newydd! Dosbarthiadau arbenigol cyd-gynhyrchu

A oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am gyd-gynhyrchu? Mae'r Cyngor Gofal ac ymgynghorwyr cyd-gynhyrchu sef Ruth Dineen a Noreen Blanluet, cyd-sefydlwyr Cyd-gynhyrchu Cymru, yn cynnal pedwar dosbarth arbenigol undydd ar gyd-gynhyrchu mewn gofal iechyd a chymdeithasol. Bydd y sesiynau, a anelir at weithwyr proffesiynol gofal iechyd a chymdeithasol, yn edrych ar y rhan mae dramâu cyd-gynhyrchu yn eu chwarae mewn gwasanaethau cyhoeddus. Edrychir hefyd ar ei rôl allweddol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Bydd y dosbarthiadau arbenigol yn digwydd ar 16 Tachwedd yng Nghaerdydd, 29 Tachwedd yng Nghaerfyrddin, 10 Ionawr yn Llandudno a 13 Ionawr yn Aberystwyth.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen Digwyddiadau'r Hyb.

### Digwyddiadau Rhannu'r Dysgu

Hoffech wybod mwy am y deunyddiau dysgu gwahanol sydd nawr ar gael ar yr Hyb? Mae grŵp hyfforddi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn rhedeg tri digwyddiad hyfforddi hanner diwrnod yn ystod yr hydref i ymgyfarwyddo arweinwyr datblygu gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol gyda'r ystod eang o adnoddau ar yr Hyb. Cynhelir y digwyddiadau yng Nghaerdydd ar 11 Tachwedd, Llandudno ar 17 Tachwedd a Phort Talbot ar 30 Tachwedd.

Am fwy o wybodaeth, ewch i dudalen Digwyddiadau'r Hyb.

### Cymryd Rhan – Sefydlu a Rhedeg Gwasanaethau Gofal a Chymorth Cydweithredol.

Gweithdy ymarferol am ddim, a drefnir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru, ar gyfer y rhai sy'n cynllunio sefydlu gwasanaethau gofal a chymorth lles cydweithredol. Mae'n rhoi trosolwg o sut i ddatblygu gwasanaeth newydd. Bydd yn eich arwain drwy gwblhau strategaeth fusnes, gan ddewis cynllun a rheolaeth gyfreithiol, a manteisio ar gyfleoedd newydd i dyfu.
**Lleoliad:** Hafan Cymru, Caerfyrddin ar 10 Tachwedd 2016,
Darperir cinio.

Gallwch archebu lle yma.

### Hyfforddi ar gyfer Newid – Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014.

Sesiwn hyfforddi undydd i gynorthwyo rheolwyr sefydliadau gofal annibynnol a darparwyr trydydd sector i ddeall a gweithredu'r ddeddf. Daw'r sesiynau â hyfforddiant a swyddogaethau cyffredinol at ei gilydd, gan asesu a chwrdd ag anghenion, diogelu a newid diwylliannol. Bydd yn cynnig gwybodaeth ar ddisgwyliadau, goblygiadau ac effaith y Ddeddf fel gall rheolwyr gynllunio ac addasu i'r newidiadau a osodir yn y ddeddfwriaeth. Gan fod nifer cyfyngedig o leoedd, dim ond dau le sydd ar gael i bob sefydliad.
**Lleoliadau:** Canolfan Optig, Ffordd William Morgan, Llanelwy LL17 OJD ar y 10fed Tachwedd 2016 a 12 Ionawr 2017
Tŷ Menai, Ffordd Penlan, Parc Busnes Parc Menai, Bangor LL57 4HJ ar 17 Tachwedd 2016
Canolfan Fusnes Redwither, Wrecsam LL13 9XR ar 21 Tachwedd 2016 ac 11 Ionawr 2017 a 18 Ionawr 2017
Canolfan Fusnes Conwy, Lôn y Gyffordd, Cyffordd Llandudno LL31 9XX ar 29 Tachwedd 2016
Ystafell Hyfforddi Greenfield, ger Treffynnon CH8 7GR ar 8 Rhagfyr 2016 a 18 Ionawr 2017
Canolfan Ebeneser, Stryd y Bont, Llangefni, Ynys Môn LL77 7PN ar 16 Rhagfyr 2016 a 6 Ionawr 2017,
CPD Porthmadog, Y Traeth, LL49 9PP ar 4 Ionawr 2017

Am fwy o wybodaeth ac i archebu, lawrlwythwch y daflen wybodaeth.

### Cynhadledd *Action on Elder Abuse Cymru*

A ydych yn gweithio â phobl hŷn? Mae *Action on Elder Abuse Cymru* yn cynnal ei gynhadledd flynyddol genedlaethol gyntaf sef *Financially Safe and Secure? Protecting Older People from Financial Abuse*, ar 21 Tachwedd yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Nod y gynhadledd yw rhannu arfer a dysgu da ledled Cymru a'r DU. Ymysg y siaradwyr mae Cadeirydd y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sef Margaret Flynn, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sef Sarah Rochira a Phrif Weithredwr Age Cymru sef Ian Thomas. Bydd nifer o weithdai hefyd, gan gynnwys un ar rôl eiriolaeth. Bydd hefyd yn edrych ar sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn ceisio diogelu pobl hŷn rhag camdriniaeth ariannol.

Am fwy o wybodaeth, ewch ar *Action on Elder Abuse Cymru.*

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

### Newydd! Taflenni ffeithiau cydweithfeydd a arweinir gan ddefnyddwyr

Mae cyfres o bum taflen ffeithiau ar gydweithfeydd a arweinir gan ddefnyddwyr a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) wedi'i chyhoeddi ar yr Hyb. Mae taflenni ffeithiau, a ddatblygwyd gan Anabledd Cymru a'r Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol, yn cynnwys trosolwg o gydweithfeydd a arweinir gan ddefnyddwyr. Ceir hefyd ganllaw i gydweithfeydd a arweinir gan ddefnyddwyr dan y Ddeddf, a gwybodaeth am sut i sefydlu eich cydweithfa eich hun.

Cewch y taflenni ffeithiau yma.

Y taflenni ffeithiau yw'r gyfres olaf o ddeunyddiau dysgu a ddatblygwyd gan y Cyngor Gofal mewn cydweithrediad â'r sector gwirfoddol i gael eu cyhoeddi ar yr Hyb. Mae'r gyfres o adnoddau dwyieithog hefyd yn archwilio eiriolaeth, gweithio â gofalwyr a gweithio â phobl ddall a byddar dan y Ddeddf.

Cewch fwy o wybodaeth yma.

### Cael eich Clywed: pecyn cymorth hunan-eiriolaeth i ofalwyr

Mae Pecyn Cymorth Hunan-Eiriolaeth Gofalwyr yn grŵp o adnoddau integredig a grëwyd gan *Carers Scotland* i gynorthwyo i leisiau gofalwyr gael eu clywed.

Yn ei ganol mae ein canllaw Cael eich Clywed. Mae'n rhoi gwybodaeth ac yn awgrymu technegau i gynorthwyo gofalwyr eirioli drostynt eu hunain. Mae hefyd yn cynnig cyfeiriadau a dolenni at elfennau eraill o'r Pecyn Cymorth i ofalwyr ei gael am fwy o wybodaeth.

Am fwy o wybodaeth, ewch ar y ddolen:

Cael eich Clywed: pecyn cymorth hunan-eiriolaeth i ofalwyr

### Adroddiad Cyngor ar Bopeth

Mae Cyngor ar Bopeth wedi cyhoeddi adroddiad sy'n ceisio siapio sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn cael ei rhoi ar waith, yn enweidig o ran gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. Mae'n defnyddio enghreifftiau o'r rhai hynny sy'n derbyn gofal a chymorth, ynghyd â rhai sy'n newydd i'r system gofal cymdeithasol. Mae *Accessing and Paying for Social Care in Wales: A People's Perspective* yn gwneud cyfres o argymhellion am sut all y Ddeddf fodloni anghenion gofal a chymorth pobl.

I lawrlwytho'r adroddiad, ewch ar wefan Cyngor ar Bopeth.

## Diweddaru pecyn Cyflwyniad ac Ymwybyddiaeth

Mae pecyn Cyflwyniad ac Ymwybyddiaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu codau ymarfer a chanllaw statudol.

Cynllunnir y pecyn, a gyhoeddwyd gyntaf fis Mai 2015, i roi trosolwg o'r gyfraith a rhoi sylfaen ar gyfer hyfforddiant manylach ac arbenigol pellach i'r rhai a effeithir gan y Ddeddf. Dyma'r gyntaf mewn cyfres o ddeunyddiau i gael eu datblygu i gynorthwyo i weithredu'r Ddeddf. Mae'n ceisio cynorthwyo hwyluswyr hyfforddi mewn cyflwyno gweithdy codi-ymwybyddiaeth cyflwyniadol byr.

Mae'r pecyn sydd wedi'i ddiweddaru yn cynnwys modiwl hyfforddi, sydd ar gael mewn fformatau PDF a WORD. Ceir cyflwyniad PowerPoint sy'n codi ymwybyddiaeth. Ceir hefyd adnodd hyfforddi'r hyfforddwr. Cewch y pecyn yma.

## Cylchlythyr *Coproduction Wales*

Isod mae dolen i gylchlythyr *Coproduction Wales*:

http://us6.campaign-archive2.com/?u=aace0428f6d355ad2e8fd4244&id=486e0239a0

**Cysylltwch â ni…**

- **I danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bostiwch ffion.jones@agecymru.org.uk**

**Ffoniwch Rhaglen Edau Euraidd 01352 706228**

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i ddiwygio erthyglau a gyflwynir i'w cyhoeddi. Nid yw'r barnau a gynhwysir yn y Cylchlythyr hwn yn rhai Age Cymru o reidrwydd.**

**Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau yn ddidwyll ond nid yw cynnyrch neu wasanaethau y cyfeirir atynt felly'n cael eu hyrwyddo na'u hargymell gan Age Cymru.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

age connects wales.

**Age Cymru,**
**Tŷ John Pathy,**
**13/14 Llys Neifion,**
**Ffordd Vanguard,**
**Caerdydd, CF24 5PJ**

**ff: 029 2043 1555**
**e: enquiries@agecymru.org.uk**
**www.agecymru.org.uk**

Rhif elusen cofrestredig: 1128436
Registered company number: 6837284